Hafan Cymru

LLAWLYFR TENANTIAID

CROESO!

Canllaw i fyw yn eich cartref Hafan Cymru.

Mae arnom eisiau i chi fod yn hapus yn eich cartref; mae arnom hefyd eisiau bod yn landlord da. Mae'r llawlyfr hwn yn nodi beth yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi a pha safonau gwasanaeth y dylech eu cael gennym ni.

Cafodd y safonau gwasanaeth rydym wedi eu datblygu eu cytuno gyda'n tenantiaid a'n staff. Byddwn yn gweithio'n galed i gyflawni'r safonau hyn a gwella ein gwasanaethau i chi.

Os byddwch yn teimlo ein bod wedi methu â chyrraedd y safonau hyn, rhowch wybod i ni. Byddwn yn monitro'r ffordd yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn ac yn dweud wrthych sut rydym yn perfformio. Gweler yr adran Cwynion a Gofal Cwsmeriaid yn y llawlyfr hwn.

Defnyddio'r Llawlyfr hwn

Mae'r Llawlyfr hwn yn cefnogi eich Cytundeb Tenantiaeth. Dylech gadw eich Cytundeb mewn lle diogel. Mae'r Llawlyfr yn ganllaw ac yn darparu cysylltiadau ar gyfer gwybodaeth bellach.

Ein Haddewid

Credwn y dylai pob unigolyn, cwpl a theulu y mae arno angen llety a chefnogaeth i fyw'n dda, brofi gwasanaeth y byddem yn hapus i'n teuluoedd a'n ffrindiau ein hunain ei gyrchu a'i gael.

Ein Cenhadaeth

Mewn byd delfrydol, byddai gan bawb gartref lle gall ffynnu; ond dyw'r byd ddim yn ddelfrydol, a dyna pam rydym yma i helpu pobl i adeiladu dyfodol mwy diogel a disglair er mwyn iddynt allu byw yn dda.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn:

Deg – ym mhopeth rydym yn ei wneud
Hyblyg – yn y ffordd rydym yn gweithredu
Ysbrydoledig – yn y ffordd rydym yn trin pobl

Ein Hymrwymiad

Rydym yn gwerthfawrogi pob un o'n tenantiaid a gallwch ddisgwyl triniaeth deg gan ein holl staff heb ystyried:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth

- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu o unrhyw fath. Rydym yn eich annog i roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiad. Mae'r rhan fwyaf o'n swyddfeydd yn addas i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt le parcio i bobl anabl. Byddwn yn defnyddio iaith glir yn ein holl lythyrau a thaflenni. Mae ein holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog a bydd siaradwr Cymraeg ar gael bob amser i ymdrin â'ch ymholiadau. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen, er enghraifft mewn print bras neu mewn ieithoedd eraill trwy gais.

Byddwn yn ystyried anghenion y bobl amrywiol rydym yn eu gwasanaethu trwy deilwra ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion. Gellir darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu i'r rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.

Eich Cytundeb Tenantiaeth

Mae'r cytundeb tenantiaeth ar gyfer Tai â Chymorth yn gytundeb cyfreithiol rhyngom ni a chi. Mae'n nodi'r telerau a'r amodau i ni a chi tra byddwch yn byw yn eich cartref. Mae'n ddogfen bwysig felly dylech ei darllen yn ofalus a'i chadw'n ddiogel. Mae llety â chymorth yn drefniant dros dro, ac wedi'i fwriadu fel cartref dros dro i chi.

Pan fyddwch yn llofnodi eich cytundeb tenantiaeth byddwch yn derbyn yr holl delerau ac amodau a restrwyd ynddo, ac yn cael eich rhwymo'n gyfreithiol ganddynt.

Mae eich Cyfrifoldebau yn cynnwys

- Talu eich rhent a thaliadau gwasanaeth
- Gofalu am eich cartref
- Bod yn gymydog da
- Bod yn ddeiliad tŷ cyfrifol
- Ymgysylltu â gweithwyr cymorth
- Caniatáu mynediad ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

Rhoddir tenantiaeth i chi ar yr amod bod arnoch angen cymorth gennym a'ch bod yn parhau i ymgysylltu â ni trwy gydol y cyfnod hwn.

Newidiadau i'ch Tenantiaeth

Rydym yn deall ei bod yn bosibl y bydd newidiadau i'ch aelwyd ambell waith. Dylech roi gwybod i ni ar unwaith os oes unrhyw newidiadau.

Anifeiliaid Anwes

Nid oes gennych ganiatâd i gadw anifail anwes ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y Rheolwr Gweithrediadau.

Olyniaeth

Nid oes hawl i unrhyw un gymryd eich tenantiaeth drosodd os byddwch yn marw.

Cyfrinachedd

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, felly bydd yr holl wybodaeth y byddwn yn ei chadw mewn ffeil amdanoch yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol amdanoch chi na'ch cartref oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i ni wneud hynny.
Yr unig eithriadau yw:

- Adrannau Budd-dal Tai neu'r Dreth Gyngor i helpu â'ch hawliad.
- Yr Heddlu os ydynt yn ymchwilio i drosedd.
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol os oes risg ddifrifol i rywun, er enghraifft plentyn.
- Contractwyr er mwyn cyflawni gwaith.

Mae gennych hawl i gael gweld y data personol rydym yn eu cadw amdanoch, cyn pen mis ar ôl gwneud cais ysgrifenedig, os:

- Gallwch ddarparu tystiolaeth i brofi pwy ydych chi.
- Bydd gwybodaeth gan bobl eraill, neu am bobl eraill, yn cael ei thynnu o'r cofnod.

Ewch i'n gwefan i weld mwy am y data rydym yn eu casglu, pam yr ydym yn eu casglu a sut yr ydym yn diogelu eich data a'ch hawliau Polisi Preifatrwydd - Hafan Cymru

Atgyweirio a Chynnal a Chadw

Mae gennych chi a ninnau fel eich landlord ymrwymiadau atgyweirio. Cyn i chi ddechrau eich tenantiaeth, cafodd eich cartref ei archwilio i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel a bod y gosodiadau mewn cyflwr da ac yn gweithio. Rydym yn dibynnu arnoch chi i roi gwybod am waith atgyweirio a rhoi mynediad rhesymol i ni er mwyn i ni allu gwneud y gwaith atgyweirio.

Ein Hymrwymiadau Atgyweirio

Fel eich landlord mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i wneud gwaith atgyweirio penodol i'ch cartref pan fydd angen. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod strwythur allanol a chyffredinol eich cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gall hyn gynnwys:

- Y to, waliau allanol, drysau allanol, fframiau ffenestri, siliau ffenestri, cliciedi ffenestri, cortynnau sash a'r holl waith peintio ac addurno allanol angenrheidiol.
- Waliau mewnol, byrddau sgyrtin, drysau a physt drws, fframiau drysau, colynnau, cloeon, trothwyon, blychau llythyrau, handlenni drysau, lloriau (gan gynnwys gorchuddion lloriau mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi) a nenfydau, gan gynnwys gwaith plastro (ond heb gynnwys peintio ac addurno).

Rydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gosodiadau ar gyfer cyflenwi dŵr, nwy, cyfarpar glanweithdra, dŵr poeth a gwres yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Gall hyn gynnwys:

- Basnau, sinciau, baddonau, toiledau, systemau fflysio, pibellau gwastraff a chawodydd.
- Gwifrau trydan, pibellau nwy a dŵr, tapiau.
- Gwresogyddion dŵr a gofod, lleoedd tân a thanau gosodedig.
- Socedi a ffitiadau golau.

Byddwn yn gwneud gwaith atgyweirio cyn gynted ag y bo modd ac o fewn yr amseroedd ymateb cytunedig. Bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau gwaith atgyweirio unigolyn yn dibynnu ar:

- Y math o waith atgyweirio sy'n ofynnol – argyfwng, brys neu reolaidd.
- Pa mor gyflym y mae contractwyr yn gallu cael mynediad i'ch cartref.
- A yw'r darnau sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r gwaith atgyweirio ar gael.

Bydd unrhyw waith atgyweirio arferol y gofynnir amdano yn cael ei gategoreiddio fel Argyfwng, Brys neu Safonol gan ddefnyddio canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn anelu at gwblhau gwaith atgyweirio o fewn y targedau ar gyfer amser ymateb. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i'r cais am waith atgyweirio sydd â'r brys mwyaf.

Gwaith Atgyweirio Argyfwng: Gwaith atgyweirio argyfwng yw'r gwaith hwnnw y mae angen ei wneud er mwyn osgoi perygl difrifol i iechyd a diogelwch neu lle gallai peidio â gwneud y gwaith atgyweirio achosi difrod mawr i adeiladau ac eiddo. Dylid rhoi sylw i waith atgyweirio argyfwng cyn pen pedair awr a sicrhau bod pethau'n ddiogel a'r gwaith wedi'i gwblhau cyn pen pum niwrnod gwaith.

Gwaith Atgyweirio Brys: Gwaith atgyweirio brys yw gwaith a allai effeithio ar esmwythdra tenantiaid ac a allai achosi difrod i'r eiddo os nad yw'n cael ei wneud ar frys. Dylid gwneud gwaith atgyweirio brys cyn pen pum niwrnod gwaith.

Gwaith Atgyweirio Safonol: Gwaith atgyweirio safonol yw gwaith atgyweirio nad yw'n waith brys er y gallai achosi anhwylustod i denantiaid. Dylid cwblhau gwaith atgyweirio safonol cyn pen wyth diwrnod ar hugain.

Caiff y canlynol eu gwasanaethu.

- Larymau mwg mewn tai a rennir yn flynyddol.
- Cyfarpar nwy a systemau gwresogi yn flynyddol.
- Gosodiadau trydanol bob pum mlynedd.
- Ansawdd dŵr am glefyd y lleng filwyr yn flynyddol mewn tai a rennir.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod y gwiriadau hanfodol hyn yn cael eu gwneud a RHAID i chi sicrhau bod ein contractwyr yn gallu cael mynediad i'ch cartref.

Mae peidio â chaniatáu mynediad ar gyfer gwasanaethu yn torri cytundeb eich tenantiaeth a bydd y Gymdeithas yn cychwyn camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Ar gyfer cyfran o'r gwaith atgyweirio a fydd yn cael ei gwblhau, byddwn yn gofyn am eich barn ynglŷn ag ansawdd y gwaith a wnaethpwyd ac agwedd y contractwyr sy'n gwneud y gwaith atgyweirio. Bydd eich ymatebion yn ein galluogi i sicrhau bod ein gwasanaeth cynnal a chadw yn bodloni eich disgwyliadau ac yn darparu gwerth da am arian.

Rhifau Cysylltu ar gyfer Rhoi Gwybod am Waith Atgyweirio

01267 225555 yn ystod oriau swyddfa.
01685 383120 ar gyfer y tîm y tu allan i oriau.
Os ydych yn meddwl eich bod yn gallu arogli nwy ewch allan o'r tŷ ar unwaith a ffoniwch y rhif Argyfwng Nwy 0800 111 999. Os ydych adref, a'ch bod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, trowch y cyflenwad nwy i ffwrdd. Dylai eich tap nwy o'r prif gyflenwad fod yn ymyl eich mesurydd nwy.

Eich Ymrwymiadau Atgyweirio

Er mai ni yw eich landlord nid ydym yn gyfrifol am bob gwaith atgyweirio. Mae rhai mathau o waith atgyweirio yn gyfrifoldeb i chi, gan gynnwys

- Cadw tu mewn y tŷ a'r gosodiadau a'r ffitiau yn y tŷ mewn cyflwr da ac yn lân bob amser.
- Gwaith addurno mewnol a chraciau bach mewn gwaith plastro.
- Plygiau trydan a ffiwsys.
- Plygiau a chadwyni sinc a bath.
- Seddi toiled.
- Toiledau wedi blocio, pibellau gwastraff mewnol a thrapiau a gylïau wedi blocio.
- Lein ddillad a sychwyr cylchdroi.
- Allweddi drysau, cloeon, cliciedau a cholfachau newydd.
- Unrhyw eitemau eraill sy'n cael eu dwyn, eu difrodi neu eu hesgeuluso.

Rhaid i chi wneud trefniadau rhesymol i atal difrod i'ch eiddo yn sgil tân, rhew, pibellau dŵr wedi byrstio neu ddraeniau wedi blocio. Rydym yn dibynnu arnoch i roi gwybod am waith atgyweirio yn fuan ac i ganiatáu mynediad i'n contractwyr fel bod modd cwblhau'r gwaith atgyweirio o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Cwestiynau Cyffredin

C. A fydd yn rhaid i'r staff ymweld cyn gwneud gwaith atgyweirio?
A. Bydd, os oes angen mesuriadau neu os yw'r gwaith yn gymhleth. Gallwch helpu trwy roi cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth gywir. Dylai pob contractwr gario cerdyn adnabod. Gofynnwch am gael gweld y cerdyn cyn caniatáu mynediad i'ch cartref.

C. A fyddaf yn gorfod talu am waith atgyweirio rywbryd?
A. Byddwch, os yw'r gwaith atgyweirio yn deillio o ddifrod, esgeulustod neu gamddefnyddio; er enghraifft os byddwch yn colli allweddi eich tŷ a bod angen rhai newydd neu os byddwch yn torri gosodiadau neu ffitiadau.

C. Roeddwn allan pan alwodd y contractwr. Beth y dylwn ei wneud?
A. Dylech ffonio eich gweithiwr cymorth ar unwaith a rhoi gwybod iddo er mwyn iddo allu aildrefnu apwyntiad. Efallai y codir tâl arnoch am golli'r apwyntiad hwn os nad ydych wedi rhoi digon o rybudd i'r staff.

Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio

Mae gennym raglen i wneud gwaith moderneiddio mewnol ac allanol ar gyfer ceginau, ystafelloedd ymolchi, gosod gwres canolog, adnewyddu gwifrau trydanol, toeon, drysau a ffenestri. Mae gennym hefyd raglen ar gyfer gwaith peintio cylchol.

Helpu ag Anableddau

Weithiau bydd eich anghenion yn newid ac mae'n bosibl y byddwn yn gallu gwneud addasiadau i'ch galluogi i barhau i fwynhau eich cartref. Ystyrir addasiadau yn dilyn atgyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Ysbyty. Bydd Hafan Cymru yn ystyried pob cais am gymhorthion ac addasiadau. Gwneir mân waith atgyweirio fel rhan o'n gwasanaeth i chi. Fodd bynnag, yn achos gwaith mawr bydd angen gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid yw bob amser yn bosibl i addasu eiddo oherwydd y ffordd y cafodd ei ddylunio'n wreiddiol neu oherwydd y costau sylweddol. Yn yr achosion hyn mae'n bosibl y byddai symud i dŷ arall yn fwy priodol. Gallwn ddarparu cyngor am ystod eang o opsiynau tai a'ch helpu i benderfynu pa un yw'r un mwyaf addas i'ch anghenion.

Lleihau Llwydni

Yn yr amgylchiadau iawn, gall llwydni luosogi a thyfu yn eich cartref. Mae ar bob math o lwydni angen lleithder i dyfu. Mae llwydni yn ein hamgylchedd yn naturiol ac mae'n arnofio trwy'r aer fel sborau. Gall y sborau ddod i mewn i'ch cartref a glanio ar ddillad, dodrefn ac arwynebau. Mae ar sborau angen lleithder i dyfu. Felly bydd unrhyw leithder gormodol (megis cyddwysiad) yn eich cartref yn caniatáu iddo dyfu. Cyddwysiad yw'r diferion dŵr sy'n ffurfio pan fydd aer cynnes yn dod i gysylltiad ag arwyneb sydd o dymheredd is na'r aer yn yr ystafell – fel paen ffenestr.

Yr Hyn y Gallwch ei Wneud

Gadewch i aer cynnes llaith fynd allan:

- Agorwch y ffenestr.
- Gadewch yr awyrellau ar agor ar eich ffenestr.
- Cadwch wyntyll echdynnu ar fynd (fel arfer mewn ceginau neu ystafelloedd ymolchi).
- Cadwch ddrws yr ystafell ymolchi ar gau pan fyddwch yn cymryd cawod a drws eich cegin ar gau pan fyddwch yn coginio.
- Sychwch eich dillad y tu allan os gallwch – mae rhoi dillad ar reiddiaduron yn rhyddhau llawer o leithder.
- Peidiwch â gadael i ddodrefn bwyso ar waliau. Maen nhw'n gallu dal aer cynnes llaith yn erbyn arwynebau oer.
- Gadewch y gwres ymlaen ar dymheredd ystafell 18 – 22 gradd. Mae hyn yn fwy cost-effeithiol na throi'r gwres i fynd am gyfnodau byr.
- Sychwch unrhyw leithder sydd wedi hel ar ffenestri.

Os byddwch yn cael llwydni, gallwch ddefnyddio triniaeth lladd ffwng neu chwistrell sydd ar gael yn y rhan fwyaf o'r archfarchnadoedd a'r siopau DIY. Gair o rybudd, peidiwch â defnyddio cannydd na hylif golchi llestri – nid yw'r rhain yn gweithio a gallant ei wneud yn waeth.

Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'n hawdd ailgylchu ac mae'n gwneud gwahaniaeth mawr. Mae ailgylchu yn atal tunelli o sbwriel rhag cael eu claddu mewn safleoedd tirlenwi a rhyddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwaredu eich gwastraff yn ofalus, gan fod sbwriel a mannau biniau blêr yn ddiflas i'ch cymdogion ac yn gallu bod yn beryglus i iechyd os ydynt yn denu plâu a fermin (llygod mawr, llygod bach a cholomennod ac ati). Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ac mae'n cynnwys gwastraff tŷ cyffredinol, er enghraifft, oergelloedd, soffas, matresi a gwastraff gardd. Os oes arnoch angen cael gwared ar eitemau mawr, er enghraifft oergell, rhewgell, wardrob neu beiriant golchi, siaradwch â'ch gweithiwr cymorth neu swyddog tai.

Cofiwch roi eich sbwriel a'ch gwastraff ailgylchu allan ar y diwrnod y mae'n cael ei gasglu yn unig. Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys gwirio eich dyddiadau casglu, neu archebu bin newydd, cysylltwch â'ch Cyngor lleol.

Eich Rhent

Rhent yw'r swm rydych yn ei dalu i ni am eich cartref. Un o amodau eich tenantiaeth yw bod rhent yn cael ei dalu'n wythnosol ymlaen llaw. Mae rhent yn ddyledus bob dydd Llun, ond rydym yn caniatáu i chi dalu bob pythefnos os yw'r rhent yn cael ei dalu erbyn y dyddiad dyledus neu'n fisol ymlaen llaw. Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i gymryd camau pendant a theg yn erbyn tenantiaid sydd ar ei hôl hi â'u taliadau. Mae dadansoddiad o'ch rhent a'ch tâl gwasanaeth cyfredol i'w weld yn eich cytundeb tenantiaeth.

Taliadau am Wasanaeth

Mae rhai o'n heiddo yn cael gwasanaethau y telir amdanynt ar ffurf taliadau gwasanaeth.
Enghreifftiau o wasanaeth y codir tâl amdano yw:

- Gwresogi a goleuo ardaloedd cyffredin.
- Cynnal a chadw tiroedd a garddio.
- Cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar tân a systemau mynediad trwy'r drysau.
- Cynnal a chadw a diweddaru erialau teledu.

Os darperir unrhyw un o'r rhain neu gostau tâl gwasanaeth eraill gyda'ch llety bydd eich rhent gros yn cynnwys tâl gwasanaeth. Cyfrifir y tâl gwasanaeth ar sail costau a gododd mewn gwirionedd yn ystod y deuddeng mis blaenorol ac maent yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd disgwyliedig.

Adolygu eich Rhent

Ar ddechrau eich tenantiaeth byddwn yn dweud wrthych faint yw eich rhent yn eich cytundeb tenantiaeth. Fel arfer byddwn yn adolygu eich rhent unwaith y flwyddyn ym mis Ebrill. Ni fyddwn byth yn newid eich rhent heb ddweud wrthych o leiaf ddau fis ymlaen llaw. Byddwn yn darparu dadansoddiad o'r ffordd y cyfrifwyd y tâl gwasanaeth gyda'ch llythyr cynyddu rhent blynyddol.

Ar Beth yr ydym yn Gwario eich Rhent?

Rydym yn ofalus wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r rhent yr ydych yn ei dalu. Mae eich rhent ar gyfer:

- Gwaith atgyweirio i'ch cartref a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, er enghraifft gosod ffenestri newydd a cheginau newydd.
- Y gwasanaeth rheoli tai rydym yn ei ddarparu.

Mewn Anawsterau Ariannol?

Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â ni cyn gynted ag y bo modd os ydych yn cael anhawster i dalu eich rhent. Mae'n bosibl y gallwn eich helpu trwy ddarparu cyngor a chymorth â'ch materion ariannol. Peidiwch ag ofni siarad â ni. Bydd ein staff yn ceisio dod i gytundeb â chi er mwyn clirio'r cyfrif. Gallwn hefyd eich cyfeirio at asiantaethau cyngor annibynnol i gael cymorth arbenigol. Byddwn hefyd yn ceisio cadw mewn cysylltiad mor aml ag sy'n bosibl.
Ein trefniadau ar gyfer ôl-ddyledion yw:

- Ysgrifennu atoch o leiaf dair gwaith ynglŷn â'ch ôl-ddyledion rhent.
- Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb.
- Rhoi Rhybudd am beidio â chadw at y cytundeb tenantiaeth.
- Cael Gorchymyn Llys ar gyfer Meddiant.
- Cael gorchymyn gan y Llys ar gyfer Gwarant Troi Allan.
- Cymryd yr eiddo yn ôl.

Talu ôl-ddyledion Rhent

Byddwn yn ceisio dod i drefniant fforddiadwy gyda chi er mwyn talu eich dyled, yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch i ni am eich amgylchiadau. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw at unrhyw drefniadau rydych wedi'u gwneud gyda ni, neu'n cysylltu â ni os ydych yn cael anhawster i wneud eich taliadau. Rydych hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan adrannau Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn cael ei rhoi iddynt. Os na allwn ddod i drefniant i ddatrys y broblem rhent, gallech gael eich troi allan o'ch cartref.

Rhesymau Da Dros Beidio â Mynd ar ei Hôl Hi â'ch Taliadau Rhent

Gall ôl-ddyledion rhent:

- Eich atal rhag trosglwyddo neu gael eich ailgartrefu gan Hafan Cymru neu unrhyw ddarparwr tai cymdeithasol arall.
- Effeithio ar eich gallu i gael credyd yn y dyfodol os byddwch yn cael gorchymyn llys.
- Achosi i chi golli eich cartref.

A Oeddech yn Gwybod?

- Rydych yn gyfrifol am dalu eich rhent hyd yn oed os ydych yn cael budd-dal tai neu gredyd cynhwysol.
- Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud cais am fudd-dal tai; nid cyfrifoldeb eich landlord, ond bydd ein staff yn eich helpu.
- Rydych yn gyfrifol am y rhent tan y dyddiad y daw eich tenantiaeth i ben, ac nid y dyddiad y byddwch yn gadael yr eiddo fydd hwnnw o reidrwydd.

- Os byddwch yn gadael eich eiddo cyn i'ch tenantiaeth ddod i ben, ac nad ydych yn byw yn yr eiddo neu nad ydych wedi symud i eiddo newydd eto, ni fydd budd-dal tai yn talu eich rhent fel arfer.

Rheoli Arian

Mae gwneud yn siŵr eich bod yn rheoli eich arian yn rhan bwysig o redeg eich cartref. Gall fod yn anodd jyglo eich arian i dalu'r biliau i gyd, yn enwedig os ydych ar incwm isel. Gall ein staff cymorth eich helpu â hyn.
Ewch i www.moneysavingexpert.com i gael cyngor di-dâl am ffyrdd o arbed arian a chael gwell bargeinion â'ch holl gostau a thaliadau dyddiol.

Cyllidebu

Pan fydd yn fater o gyllidebu, mae'n aml yn help os gallwch ysgrifennu eich holl gostau misol i gael darlun clir o'ch sefyllfa ariannol.

Mae cyllidebu yn:
- Eich helpu i gadw golwg ar eich arian.
- Dangos i chi ble mae eich arian yn mynd.
- Eich helpu i weld ble gallwch wneud arbedion.
- Eich helpu i arbed ychydig o arian bob wythnos neu fis.

I wneud cyllideb
- Gwnewch restr o'ch holl incwm o gyflogau, budd-daliadau, credydau treth, cynhaliaeth neu unrhyw ffynhonnell arall.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael yr holl fudd-daliadau a chredydau treth y mae gennych hawl iddynt.
- Gwnewch restr o'ch holl daliadau.

Dylech ystyried cynilo ychydig o'r arian sydd gennych dros ben, gan y bydd hyn yn rhoi rhywbeth i chi ddisgyn yn ôl arno os byddwch yn wynebu costau annisgwyl. Mae hefyd yn gadael i chi gynilo ar gyfer rhywbeth y mae arnoch ei eisiau yn hytrach na'i brynu ar gredyd. Efallai y bydd yn haws ac yn rhatach i chi dalu'r rhan fwyaf o'ch biliau trwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog.
Defnyddiwch yr adran 'Adnoddau Defnyddiol' yng nghefn y llawlyfr hwn. Os bydd arnoch angen rhagor o gymorth a chyngor am gyllidebu, siaradwch â'ch gweithiwr cymorth neu swyddog tai.

Y Dreth Gyngor

Nid ydym yn casglu'r Dreth Gyngor. Dylech hysbysu'r Cyngor ar unwaith a bydd yn rhoi gwybod i chi faint sy'n daladwy. Gallech fod yn gymwys i gael cymorth â thaliadau'r Dreth Gyngor. Ewch i https://llyw.cymru/treth-gyngor i gael rhagor o wybodaeth am y Dreth Gyngor.

Undeb Credyd

Sefydliadau cydweithredol yn eich cymuned yw Undebau Credyd ac maent yn arbenigo mewn cynilion a benthyciadau o swm cyn lleied â £100. Ewch i https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/ neu ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol i gael mwy o wybodaeth am eich Undeb Credyd agosaf.

Benthycwyr Arian

Os ydych yn poeni am fenthyciwr arian yn eich ardal neu os ydych yn cael eich bygwth gan fenthyciwr arian gallwch roi gwybod i Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru amdano, sy'n gweithredu llinell gymorth gyfrinachol 24 awr ar 0300 123 3311 neu anfonwch neges e-bost i wimlu-srs@valeofglamorgan.gov.uk .

Pum Awgrym Ariannol i'ch Helpu i Gychwyn

1. Cadwch ddyddiadur gwario am un mis i gael syniad cywir faint rydych yn ei wario ar wahanol bethau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw llygad ar bob ceiniog.
2. Edrychwch ar uswitch.com i chwilio am filiau ynni rhatach ond peidiwch â chloi mewn cytundeb a fydd yn fwy costus yn y dyfodol!
3. Os oes gennych unrhyw arian dros ben, rhowch ef mewn undeb credyd neu gyfrif cynilo ar gyfer yr adeg y bydd arnoch eisiau ei wario.
4. Defnyddiwch turn2us.org.uk i wneud yn siŵr eich bod yn cael y budd-daliadau iawn.
5. Os oes gennych ddyledion neu ôl-ddyledion, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfathrebu gyda'r cwmnïau neu'r sefydliadau y mae arnoch arian iddynt, neu gofynnwch i rywun siarad gyda nhw ar eich rhan. Mae'n werth rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Budd-dal Tai

Gallech gael Budd-dal Tai i'ch helpu i dalu eich rhent os ydych ar incwm isel. Gall Budd-dal Tai dalu eich rhent i gyd neu ran ohono. Mae faint y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm a'ch amgylchiadau a lefel y cymorth cysylltiedig â thai yr ydych yn ei gael gennym. Gallwch ymgeisio am Fudd-dal Tai pa un a ydych yn ddiwaith neu'n gweithio. Mae'n bosibl hefyd y gallwch gael help â'ch rhent os bydd eich budd-daliadau'n dod i ben.

Os ydych yn gymwys telir budd-dal yn uniongyrchol i'ch cyfrif rhent gan leihau swm y rhent y byddwch yn ei dalu. Bydd maint y budd-dal yn amrywio yn ôl eich amgylchiadau a'r rheolau a bennwyd gan y Llywodraeth. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod a bod arnoch eisiau gwneud dylech lenwi ffurflen gais a darparu prawf i ddangos pwy ydych chi, a phrawf o'ch incwm a'ch cynilion.

Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n cyfuno rhai budd-daliadau lles a thai. Dim ond ar-lein y gallwch wneud hawliad a phan fyddwch yn gwneud hawliad rhaid i chi gynnwys manylion eich rhent yn yr hawliad. Efallai hefyd y bydd angen i chi fynd i gyfweliad yn eich Canolfan Byd Gwaith leol. Byddwch yn cael eich taliad cyntaf tua chwe wythnos ar ôl gwneud cais ar-lein os bydd eich cais yn llwyddiannus.

Caiff Credyd Cynhwysol ei dalu'n uniongyrchol i chi bob mis. Rhaid i chi wedyn dalu eich rhent o'r arian hwn. Os nad ydych yn dymuno cael eich taliad rhent yn uniongyrchol, siaradwch â ni ac mae'n bosibl y gallwn wneud cais am Drefniant Talu Amgen i chi. Gallwch weld rhagor o fanylion am Gredyd Cynhwysol ar https://www.gov.uk/credyd-cynhwysol. Os oes arnoch angen help i wneud eich hawliad ar-lein, ffoniwch y llinell gymorth.

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol: 0800 328 9344 neu 0800 328 5644

Newid Amgylchiadau (Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol)

Rhaid i chi roi gwybod ar unwaith am unrhyw newid yn eich amgylchiadau gan ei bod yn bosibl y byddwch yn cael gormod neu ddim digon o fudd-dal. Os telir gormod o fudd-dal i chi bydd yn rhaid i chi ei dalu yn ôl. Gadewch i'ch gweithiwr cymorth neu swyddog tai wybod am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau ar unwaith.

Ymddygiad ac Ymarweddiad

Rydych yn gyfrifol am eich ymddygiad bob amser ar eich safle ac ar eich ystad. Rydych yn gyfrifol am eich teulu, pobl eraill sy'n byw yn eich eiddo neu unrhyw un sy'n ymweld â'ch eiddo.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Ddiflastod

Mae problemau sy'n cael eu hachosi gan ddiflastod ac anghydfodau yn aml yn cael eu galw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn dibynnu arnoch i'n helpu ni trwy sicrhau nad ydych yn creu unrhyw fath o ddiflastod i bobl eraill a hefyd trwy roi gwybod i ni ac asiantaethau perthnasol eraill am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei achosi mewn llawer o ffyrdd, er enghraifft:

- Diflastod sŵn.
- Cam-drin geiriol/aflonyddu/dychryn/ymddygiad bygythiol.
- Camdriniaeth ddomestig.
- Camddefnyddio cyffuriau/sylweddau / delio mewn cyffuriau.
- Fandaliaeth.
- Sbwriel/tipio anghyfreithlon.
- Graffiti.
- Ymddygiad hiliol.
- Parcio difeddwl.

Gellir cysylltu â'r Heddlu ar 101 ar gyfer achosion nad ydynt yn achosion brys. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol trwy fynd i www.ourbobby.com lle gallwch ddod o hyd i'w manylion cysylltu.

Byddwch yn Realistig

Efallai y bydd ymddygiad rhywun yn mynd dan eich croen ond nid yw hynny'n golygu ei fod yn wrthgymdeithasol. Er enghraifft: nid yw parti unwaith yn unig, plant yn chwarae yn y stryd, anifeiliaid anwes yn crwydro ar draws yr ardd neu sŵn yn y tŷ fel babi'n crio neu fflysio toiledau yn weithredoedd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gweithio Gyda Ni

Rydym yn ceisio ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond mae arnom hefyd angen i chi sylwi bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyfrifoldeb i bawb sy'n byw yn y gymuned ac y gall gweithio gyda'n gilydd ddarparu ateb hirdymor.

Cymdogion sy'n Achosi Diflastod

Byddem yn disgwyl i denantiaid drafod anghytundeb gyda'i gilydd a chanfod ateb cyfeillgar i'w problem cyn i'r Gymdeithas ddechrau ymchwilio. Os byddwch yn teimlo nad ydych yn gallu siarad â'ch cymydog, dylech roi gwybod i ni am y mater cyn gynted ag y bo modd er mwyn i ni allu gweithio i geisio datrys y sefyllfa. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol mae'n help os gallwch roi cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth er mwyn i ni allu gweithio i ddatrys y sefyllfa.

Pan fyddwch yn rhoi gwybod am achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol mae'n help os gallwch roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, er enghraifft dyddiadau, amseroedd a'r bobl sy'n gysylltiedig. Mewn rhai achosion efallai y byddwn yn gofyn i chi gadw dyddlyfr o ddigwyddiadau rheolaidd i helpu ein hymchwiliad.

Gallwch roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn nifer o ffyrdd:

- Dros y ffôn: 01267 225555
- E-bost: customerservices@hafancymru.co.uk
- Trwy ein gwefan https://hafancymru.co.uk/concerns-and-complaints/?lang=cy
- Trwy'r post neu wyneb yn wyneb: Cymdeithas Dai Hafan Cymru, Y Brif Swyddfa, Ffordd Steffan, Pensarn, Caerfyrddin, SA31 2BG.

Mewn sefyllfaoedd argyfwng ffoniwch 999.

Cam-drin Domestig

Fel landlord cyfrifol, ni fydd y Gymdeithas yn goddef cam-drin domestig yn unrhyw rai o'n stoc. Os ydych chi a'ch teulu mewn perygl uniongyrchol, gallwch ffonio'r heddlu ar 999 a byddant bob amser yn ymateb. I gael rhagor o gymorth cysylltwch â'ch gweithiwr cymorth neu swyddog tai.

Trosedd Casineb

Mae trosedd casineb yn drosedd lle mae'r troseddwr wedi dewis dioddefwr yn benodol oherwydd y math o berson yw e yn eu barn hwy. Gallai hyn fod oherwydd:

- Anabledd
- Hil
- Ffydd
- Hunaniaeth o ran rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

Gallai trosedd casineb gynnwys difrod i eiddo, bygythiadau, lladrad, cam-drin geiriol, ymosodiad, aflonyddu a cham-drin ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Canolfan Genedlaethol Adrodd a Chymorth Troseddau Casineb, lle gallwch gael cymorth rhad am ddim, annibynnol gan Gymorth i Ddioddefwyr Cymru.

Byw mewn Fflatiau

Os ydych yn byw mewn fflat, rydym yn gofyn i chi ystyried anghenion eich cymdogion, yn union fel rydym yn disgwyl i'ch cymdogion ystyried eich anghenion chi. Helpwch ni i ofalu am fannau cyffredin megis cynteddau a grisiau, ardaloedd biniau a gerddi.

Cofiwch:

- Gadw mannau cyffredin yn lân ac yn daclus.
- Peidio â gwneud gormod o sŵn, yn enwedig yn y nos neu'n gynnar yn y bore.
- Peidio ag achosi diflastod i gymdogion eraill.
- Peidio â chadw sylweddau peryglus.
- Os oes gan eich fflat system mynediad ar gyfer y drysau, gwneud yn siŵr bod y drws wedi'i gloi y tu ôl i chi.
- Edrych ar ôl eich allweddi a pheidiwch â gadael i rywun arall eu defnyddio.
- Rhoi gwybod am ddiffygion neu waith atgyweirio sydd ei angen mewn ardaloedd cyffredin. Er enghraifft, drysau cyffredin, systemau mynediad drysau a goleuadau mannau cyffredin.

Ymddygiad Tuag at Staff

Mae staff ar gael i'ch helpu a rhoi cyngor i chi. Rydym wedi ymrwymo i ofal cwsmeriaid ond rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein staff. Un o amodau eich tenantiaeth yw nad ydych yn bygwth neu'n cam-drin ein staff yn gorfforol neu'n eiriol. Mae hyn yn cynnwys iaith anweddus a bod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol pan fyddwn yn ceisio eich cefnogi.

Cwynion a Gofal Cwsmeriaid

Mae'r Gymdeithas yn ceisio darparu gwasanaethau o safon uchel. Pan fydd pethau'n mynd o chwith mae angen i ni wybod er mwyn i ni allu cymryd camau i wneud pethau'n iawn. Rydym yn ystyried ymdrin â chwynion fel rhan o'n polisi o ofalu amdanoch a'ch trin yn iawn. Rydym wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal ac mae arnom eisiau sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael ar sail deg a chyfartal.

Bydd y Gymdeithas a'i staff yn:

- Bod yn gyfeillgar ac yn gwrando arnoch â pharch.
- Ymddiheuro pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- Lle bynnag y gallwn, byddwn yn eich cyfarfod yn breifat.
- Rhoi'r un safon o wasanaeth ble bynnag rydych yn byw.
- Ceisio cadw apwyntiadau. Os na allwn wneud hynny byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Cwynion – Beth i'w Ddisgwyl

- Byddwn yn ceisio cydnabod cwynion cyn pen pum niwrnod gwaith
- Byddwn yn ceisio datrys cwyn cam 1 cyn pen pedwar diwrnod gwaith ar ddeg
- Byddwn yn ceisio datrys cwyn cam 2 cyn pen wyth diwrnod gwaith ar hugain
- Os byddwn yn gwneud rhywbeth o'i le byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn cynnig datrysiad.

Nid yw cwyn yn:

- Gais cychwynnol am wasanaeth.
- Apêl yn erbyn penderfyniad a wnaethpwyd yn briodol.

Mae copïau o'r polisi cwynion a'r ffurflen gwyno i'w gweld ar ein gwefan https://hafancymru.co.uk/concerns-and-complaints

Iawndal

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd tenantiaid yn gymwys i gael iawndal. Mae hyn yn gymwys mewn achosion lle rydym wedi methu â chynnal gwasanaeth neu gyfleusterau o safon foddhaol. Os ydych yn methu â defnyddio eich llety cyfan oherwydd diffyg, neu os ydych wedi eich amddifadu o rai gwasanaethau neu gyfleusterau hanfodol am gyfnod annerbyniol mae'n bosibl y bydd gennych hawl i iawndal. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys dŵr poeth/oer, trydan, golau, coginio neu lanweithdra. Nid oes gennych hawl i iawndal gan y Gymdeithas os y cwmni cyfleustodau sy'n gyfrifol am y diffyg.

Mae eich cytundeb tenantiaeth yn eich rhwymo i ganiatáu mynediad i staff a chontractwyr y gymdeithas archwilio'r eiddo a gwneud unrhyw waith atgyweirio. Os byddwch yn torri'r amodau hyn ni fyddwch yn gymwys am iawndal am unrhyw golli cyfleusterau neu wasanaethau a fydd yn deillio o hynny. Os bydd arnoch chi arian i ni e.e. ôl-ddyledion rhent, costau llys neu daliadau eraill sy'n ddyledus byddwn yn tynnu unrhyw iawndal sy'n ddyledus i chi o'r swm hwn.

Canmoliaeth

Byddem hefyd yn hoffi cael adborth cadarnhaol pan fydd pethau'n mynd yn dda.

- Trwy alw heibio
- Dros y ffôn 01267 225555.
- Trwy ysgrifennu at Brif Swyddfa Hafan Cymru, Ffordd Steffan, Pensarn, Caerfyrddin SA31 1BG.
- E-bost: customerservices@hafancymru.co.uk

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ein hymrwymiad i chi:

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau a hybu cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u gallu. Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu o unrhyw fath ar unrhyw sail, gan gynnwys rhyw, hil, tarddiad ethnig, crefydd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd corfforol neu anabledd dysgu, oedran, rhywedd neu unrhyw faen prawf arall na ellir ei gyfiawnhau.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant sefydliadol sy'n gwerthfawrogi cyfraniadau pob unigolyn. Rydym yn darparu tai a gwasanaethau tai i adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ymgynghori a Chynnwys

Rydym yn annog ymgynghori a chynnwys tenantiaid. Mae hyn yn golygu dweud wrthych am unrhyw beth sy'n effeithio ar eich cartref a rhoi cyfleoedd i chi fynegi eich barn. Rydym wedi datblygu dulliau amrywiol o'ch cynnwys:

Digwyddiadau Blynyddol Rhanbarthol – Bob blwyddyn rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnwys tenantiaid a'r effaith y mae hynny wedi ei gael. Mae'r digwyddiad yn edrych ar yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni a beth fydd yn bwysig y flwyddyn nesaf.

Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid – Mae'r strategaeth yn rhan bwysig o ddatblygu'r ffordd rydym yn cynnwys tenantiaid a gosod targedau a chynllun gweithredu.

Cyfarfodydd cynllun a thai – Cyfarfodydd wythnosol rheolaidd i denantiaid tai a rennir a chynlluniau tai lle gallwch drafod unrhyw bryderon gyda ni a syniadau ar gyfer ble rydych yn byw. Defnyddir y cyfarfodydd hefyd i adolygu'r strategaeth cyfranogiad tenantiaid.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Mae gennym ddyletswydd gofal gyfreithiol i ofalu am Iechyd, Diogelwch a Lles ein holl denantiaid. Mewn argyfwng, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni ddefnyddio grym i fynd i mewn heb rybudd ymlaen llaw, er enghraifft i atgyweirio peipen wedi byrstio mewn fflat ar lawr uwch neu i ddelio â thân neu bibell nwy yn gollwng. Os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn trefnu bod eich eiddo yn cael ei wneud yn ddiogel. Os oes rhaid newid y cloeon byddwn yn gadael nodyn yn egluro sut i gael yr allweddi newydd.

Asbestos

Mae'r Gymdeithas yn cymryd y risgiau posibl sy'n cael eu hachosi gan asbestos o ddifri, ac yn cydnabod nad yw asbestos yn achosi risg i iechyd cyn belled nad yw'n cael ei ddifrodi neu ei aflonyddu. Dylai pawb gymryd gofal wrth wneud tasgau DIY o gwmpas y cartref. Os byddwch yn dod ar draws unrhyw ddeunydd rydych yn meddwl y gallai fod yn asbestos, peidiwch â gwneud dim iddo. Y prif berygl sy'n gysylltiedig ag asbestos yw anadlu'r llwch neu'r ffeibrau. Mae deunydd sy'n cynnwys asbestos yn ddiogel os yw'n cael ei adael wedi'i selio a heb amharu arno a dylid ei adael felly.

Dylid gwirio unrhyw beth yr ydych yn meddwl ei fod yn cynnwys asbestos rhag ofn bod yna ddifrod. Os byddwch yn darganfod deunydd wedi'i ddifrodi neu wedi torri a allai fod yn cynnwys asbestos, yna cadwch draw o'r ardal a gofynnwch i'ch gweithiwr cymorth am gyngor.

Diogelwch Rhag Tân

Rhagofalon cyffredinol:

- Peidiwch â defnyddio sosban sglodion gan fod y rhain yn beryglus iawn ac yn gallu achosi tân.
- Peidiwch â gadael i blant chwarae gyda matsis neu danwyr.
- Peidiwch â smygu yn y gwely.
- Peidiwch byth â gadael sigarét wedi'i chynnau heb neb yn cadw golwg arni.

- Os bydd eich synhwyrydd mwg yn torri neu os nad yw'n gweithio mwyach, gadewch i ni wybod ar unwaith.
- Cadwch ddrysau tân yn glir a pheidiwch â rhoi rhywbeth i'w dal ar agor.
- Diffoddwch gyfarpar trydanol cyn mynd i'ch gwely.
- Peidiwch â rhedeg fflecsys o dan garpedi neu rygiau – gall gwifren sy'n gordwymo achosi i'r deunydd fynd ar dân.
- Peidiwch â gorlwytho socedi ag addasyddion. Defnyddiwch flociau socedi aml-blwg yn lle hynny gan fod gan y rhain amddiffyniad ychwanegol ynddynt i'w hatal rhag gordwymo a ffrwydro.
- Defnyddiwch y ffiws gywir ar gyfer y cyfarpar bob amser.

Synwyryddion Mwg

Byddwn yn gwasanaethu eich synwyryddion ac yn gosod rhai newydd pan fydd angen, ond chi sy'n gyfrifol am:

- Eu profi i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn trwy bwyso'r botwm profi bob wythnos.
- Gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch teulu'n gwybod sut sŵn sydd i'r larwm a beth i'w wneud os bydd yn canu.
- Gwneud yn siŵr nad oes llwch a baw ar y gorchudd.

Nwy

Os byddwch yn arogli nwy, gwnewch yn siŵr nad ydych wedi gadael unrhyw gyfarpar nwy ar fynd, trowch y cyflenwad i ffwrdd yn y prif gyflenwad ar unwaith ac agorwch ffenestr. Peidiwch â rhoi unrhyw oleuadau neu eitemau trydanol i fynd a pheidiwch â thanio matsien gan y gallai gwreichion achosi ffrwydrad. Os byddwch yn amau bod nwy yn gollwng ffoniwch 0800 111 999.

Trydan

Os byddwch yn cael sioc drydanol o unrhyw socedi neu osodiadau trowch y cyflenwad i ffwrdd yn y prif gyflenwad a ffoniwch ni ar unwaith.

Os byddwch yn colli'r trydan yn gyfan gwbl, ffoniwch eich cyflenwr a gall ddweud wrthych beth yw'r broblem a rhoi syniad i chi pa bryd y bydd y pŵer yn dod yn ôl. Os bydd y trydan i soced arbennig neu gyfres o socedi yn methu, gallai hyn fod am nad yw'r torrwr cylched (switsh datgysylltu) wedi torri'r cyflenwad dros dro. I edrych a yw hyn wedi digwydd:

- Tynnwch blwg unrhyw gyfarpar allan o'r soced.
- Trowch y switsh datgysylltu ymlaen eto.
- Rhowch blygiau'r cyfarpar yn ôl eto bob yn un.

Os nad yw'r pŵer yn dod yn ôl neu os yw'r switsh yn dal i "ddiffodd", cysylltwch â ni.

Dŵr

Os oes gennych beipen wedi byrstio diffoddwch y cyflenwad yn y tap cau a ffoniwch ni ar unwaith.

Rhagofalon Rhew

Pan fydd dŵr yn rhewi mewn tywydd oer, gall achosi difrod difrifol i danciau dŵr, pibellau, sestonau, sinciau a basnau wrth iddo ehangu. Weithiau ni fydd modd gweld y difrod hwn nes bydd y rhew'n dadmer, a dŵr yn arllwys trwy bibellau wedi byrstio neu gyfarpar. Dylech gymryd y rhagofalon a ganlyn er mwyn diogelu eich cartref a'i gynnwys yn ystod tywydd oer:

- Cadwch eich cartref mor gynnes ag y gallwch.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble i ddod o hyd i'r prif dap rheoli dŵr neu'r tap cau a sut i'w gau. Os nad yw'n gweithio'n iawn, rhowch wybod i ni.

Os oes rhaid i chi adael eich cartref yn wag am fwy nag wythnos pan allai'r tywydd fod yn oer a bod perygl o rew caled, dylech hefyd:

- Ddraenio'r holl ddŵr o'r system trwy gau'r tap cau a rhedeg pob tap nes bydd y dŵr yn stopio. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gadael tapiau'n rhedeg heb neb yn cadw llygad arnynt rhag ofn bod y peipiau gwastraff wedi rhewi a bod y dŵr yn gorlifo.
- Fflysiwch y toiled a rhowch halen yn y pan.

Pan fyddwch yn dod yn ôl:

- Trwoch y tap cau ymlaen eto a gwnewch yn siŵr bod y dŵr yn llifo'n iawn o bob tap.
- Trowch eich gwres canolog ymlaen. Os byddwch yn canfod nad yw'n cynhesu, trowch y system i ffwrdd a rhowch wybod i ni.

Hylendid Dŵr

Mae cadw eich cyflenwad dŵr yn lân a heb halogyddion, megis bacteria clefyd y lleng filwyr, er ei fod yn brin iawn, yn dal yn bwysig. Rydym yn argymell eich bod yn cymryd y camau a ganlyn:

- Rhowch wybod i ni os nad yw'r bwyler neu'r tanciau dŵr poeth yn gweithio'n iawn, yn enwedig os nad yw'r dŵr yn dod allan o'r tapiau ar dymheredd digon uchel.
- Rhowch wybod i ni os yw'r dŵr oer yn dal i redeg yn gynnes ar ôl i chi droi unrhyw ddŵr i ffwrdd, a allai fod wedi crynhoi yn y pibellau.
- Rhowch wybod i ni os oes problemau, malurion neu liw gwahanol ar y dŵr.
- Glanhewch ben y gawod bob chwe mis o leiaf, tynnu'r cen i ffwrdd a'i ddiheintio.
- Os ydych yn defnyddio eich cawod yn anaml iawn dylech ei fflysio trwy redeg y dŵr am o leiaf ddau funud yr wythnos. Dylech roi sylw penodol i hyn os ydych yn mynd ar wyliau am fwy nag wythnos.

Risg o Losgi â Systemau Dŵr Poeth.

Yr arwyddion rhybudd arferol i gadw llygad amdanynt pan fydd thermostat gwresogydd troch wedi torri yw:

- Dŵr rhy boeth yn dod allan o dapiau dŵr poeth.
- Gormod o sŵn neu sŵn swigod yn dod o'r tapiau dŵr poeth.
- Dŵr poeth yn dod allan o'r tapiau dŵr oer (gan fod rhai systemau storio hefyd yn bwydo dŵr oer i ystafelloedd ymolchi).
- Stêm a lleithder yng ngofod y to.

Os byddwch yn sylwi ar unrhyw rai o'r arwyddion uchod, trowch switsh y gwresogydd troch i ffwrdd a chysylltwch â ni ar unwaith.

Ein Hyswiriant Ni

Mae ein polisi yswiriant yn diogelu strwythur yr eiddo. Mae gennym hefyd yswiriant rhag anaf a difrod sy'n cael ei achosi gan ein hesgeulustod ein hunain. Os ydych yn teimlo bod gennych hawliad yn ein herbyn ni neu ein contractwyr, rhaid i chi ysgrifennu atom gan ddweud pam rydych yn gwneud hawliad, y difrod a achoswyd a'r gost. Byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'n hyswirwyr am benderfyniad.

Eich Yswiriant Chi

Mae'n bwysig iawn eich bod yn trefnu eich yswiriant eich hun ar gyfer cynnwys eich cartref. Gall y gost fod yn isel iawn o'i gymharu â chost prynu eitemau newydd yn lle eich cynnwys. Mae'r rhan fwyaf o'r yswirwyr yn diogelu rhag tân, llifogydd a lladrad. Dylech ofyn am gyngor annibynnol ynglŷn â'r polisi gorau ar gyfer eich anghenion chi.

Diogelwch

- Cofiwch gymryd camau diogelwch trwy sicrhau bod drysau wedi'u cloi a ffenestri wedi'u cau pryd bynnag y byddwch yn mynd allan.
- Peidiwch â gadael arian neu eitemau gwerthfawr yn y golwg.
- Gwnewch yn siŵr bod drysau mynediad cyffredin yn cael eu cau ar ôl eu defnyddio. Peidiwch byth â rhoi rhywbeth i'w dal ar agor.
- Peidiwch â gadael neb i mewn trwy ddrws cyffredin. Bydd gan denantiaid allwedd a dylai eu hymwelwyr gysylltu â nhw yn uniongyrchol.

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am ddiogelwch eich cartref gallwch gysylltu â'r Swyddog Atal Troseddau ar 101.

Cyngor Ynni

Wrth ddechrau tenantiaeth byddwch yn cael Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae'r dystysgrif hon yn rhoi manylion ynglŷn â pha mor effeithlon yw eich cartref, beth yw'r costau rhedeg tebygol ar gyfer gwresogi a goleuo a pha gamau eraill y gellid eu gosod i'w wneud yn fwy effeithlon. Mae'r dystysgrif yn ddilys am ddeng mlynedd. I weld y Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer eich cartref gallwch ymweld ag www.epcregister.com .

Awgrymiadau Defnyddiol

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio bylbiau golau arbed ynni.
- Gall troi eich thermostat i lawr un radd dorri eich costau tanwydd 10%.
- Caewch eich llenni gyda'r nos i gadw gwres i mewn.
- Arhoswch nes bydd gennych lwyth llawn cyn defnyddio'r peiriant golchi.
- Trowch y golau ac eitemau trydanol eraill i ffwrdd wrth adael ystafell.
- Peidiwch â gadael drws yr oergell ar agor am fwy o amser nag sydd ei angen
- Peidiwch â gadael eich teledu yn y modd segur *('standby')*.
- Peidiwch â berwi mwy o ddŵr nag yr ydych ei angen yn y tegell.

- Edrychwch rhag ofn y gallwch gael bargen well â chyflenwyr ynni eraill.

Dod â'ch Tenantiaeth i Ben

Mae'r cytundeb tenantiaeth a lofnodwyd gennych pan gawsoch yr allweddi i'r eiddo yn gytundeb cyfreithiol, a rhaid i bob tenant roi rhybudd ysgrifenedig o bedair wythnos o leiaf i derfynu ei denantiaeth. Rhaid i chi roi eich cyfeiriad newydd, rhif ffôn i gysylltu â chi, cyfeiriad e-bost, a'r rheswm dros symud. Bydd y cyfnod Rhybudd yn dechrau ar y dyddiad y daw eich rhybudd i law.

Beth fydd yn Digwydd ar ôl i ni Roi Rhybudd Ysgrifenedig

Pan fyddwn wedi cael eich rhybudd, bydd eich gweithiwr cymorth neu swyddog tai yn:

- Cadarnhau pryd fydd dyddiad olaf eich tenantiaeth.
- Gofyn i chi am unrhyw fanylion nad yw gennym yn barod.
- Trefnu amser cyfleus i drefnu archwiliad o'r eiddo – gallai fod yn ystod eich cyfnod o Rybudd, felly byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ganiatáu mynediad i ni ar gyfer yr archwiliad.
- Gadael i chi wybod faint o rent y bydd angen i chi ei dalu hyd at ddiwedd y denantiaeth.

Beth y Dylwn ei Wneud ar ôl i mi Derfynu fy Nhenantiaeth?

- Talu'r rhent sy'n ddyledus hyd at ddiwedd y denantiaeth. Mae hyn yn berthnasol pa un a ydych yn dal i fyw yno ai peidio. Rhaid i chi dalu unrhyw ôl-ddyledion, gan gynnwys gwaith atgyweirio y gellir ailgodi tâl amdano, a rhent sy'n ddyledus cyn i chi fynd.

- Gwneud cais am ddyfarniad Budd-dal Tai deuol – Os byddwch yn cael Budd-dal Tai ac nad ydych yn bwriadu byw yn yr eiddo tan ddiwrnod olaf eich tenantiaeth, bydd angen i chi wneud cais am ddyfarniad Budd-dal Tai deuol fel eu bod yn gwneud taliadau ar eich hen gartref a'ch cartref newydd. Mae'n bosibl na fydd y math hwn o ddyfarniad yn cael ei ganiatáu ym mhob achos. Gall eich gweithiwr cymorth eich helpu gyda hyn.

- Trefnu gyda'r Post Brenhinol bod eich post yn cael ei anfon ymlaen i'ch cyfeiriad newydd.

- Darllen eich mesuryddion a rhoi gwybod i'ch cyflenwyr ynni a dŵr beth yw'r darlleniadau a dyddiad diwrnod olaf eich tenantiaeth.

- Labelu eich allweddi a'u dychwelyd i'ch gweithiwr cymorth neu swyddog tai.

Sut y Dylwn Adael fy Eiddo?

- Yn wag – Os byddwch yn gadael unrhyw eiddo neu sbwriel ar ôl byddwn yn codi tâl arnoch am gael gwared arno. Gall cost hyn fod yn uchel gan ei fod yn cynnwys amser contractwr, costau cerbyd a chostau dympio. Ni ellir gadael carpedi a llenni ar ôl oni bai eich bod wedi cael caniatâd ymlaen llaw.

- Yn lân, taclus ac mewn cyflwr addurniadol da. Os bydd angen i ni wneud unrhyw waith glanhau yn eich eiddo ar ôl i chi adael, byddwn yn ailgodi tâl arnoch am y gwaith hwn.

- Rhaid torri lawntiau a pherthi a chlirio gerddi sydd wedi gordyfu.

- Rhaid cwblhau a chytuno'n ysgrifenedig ar waith gwella heb ei awdurdodi neu waith anghyflawn cyn i chi adael.

- Codir tâl arnoch am unrhyw ddifrod i'r eiddo nad yw o ganlyniad i "ôl traul teg" h.y. defnydd bob dydd arferol. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw waith atgyweirio y gallai fod ei angen yn eich cartref gofynnwn i chi sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud cyn i chi adael.

- Yn ddiogel ac yn saff – rhaid i chi sicrhau bod pob ffenestr a drws wedi'i gloi.